

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
(Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth
a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
09 Tachwedd 2021

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021 yn diwygio adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig o fewn y diffiniad o 'awdurdod cyhoeddus' yn adran 6(9) sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau ("y ddyletswydd bioamrywiaeth").

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Cefndir deddfwriaethol

Cynhwysir y pwerau sy'n galluogi'r rheoliadau hyn i gael eu gwneud yn adrannau 84(2) a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 84(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn cysylltiad â rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n diwygio, yn addasu, yn cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad.

Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y rheoliadau eu gwneud gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a deuant i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021 ("Rheoliadau 2021") yn diwygio adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig o fewn y diffiniad o 'awdurdod cyhoeddus' yn adran 6(9) sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd bioamrywiaeth. O ganlyniad i'r rheoliadau hyn, bydd yn ofynnol i Cyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru wrth wneud penderfyniadau.

Mae Rheoliadau 2021 yn rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig yn effeithiol.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau, ac yn cynnwys y prif gynghorau yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu. Mewn rhai amgylchiadau cynhwysir Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru

mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig. Lle bo hyn yn wir nodir hyn yn y rheoliadau sefydlu perthnasol.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw y caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei drin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' neu fel aelod ohono ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

Mae'r diwygiadau yn y rheoliadau hyn yn mewnosod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 o dan y diffiniad o "*awdurdod cyhoeddus*."

5. Ymgynghori

Ystyriwyd y gwaith o gymhwyso dyletswyddau ehangach cyrff cyhoeddus fel rhan o'r ymgynghoriad ar Reoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft a barodd rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021. Yn unol â'r ymagwedd at drin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau cyrff cyhoeddus â phrif gynghorau yng Nghymru – gan gynnwys y ddyletswydd bioamrywiaeth.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Er hynny, asesodd yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-orllewin (Cymru) 2021 y costau a'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', gan gynnwys cymhwyso dyletswyddau ehangach y sector cyhoeddus megis y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau. Ystyriwyd y costau sy'n gysylltiedig â chymhwyso'r dyletswyddau hyn i Cyd-bwyllgorau Corfforedig felly fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain.

Mae copi o'r [Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y (De-orllewin) Cymru 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.